

Y Fframwaith Blaenoriaethau Economaidd (EPF)

Papur Briffio

Buddsoddi mewn twf a swyddi

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF)

Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF)

Cronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD)

Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF)

Ble i ddod o hyd i ragor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth, neu os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, cysylltwch â:

ERDF	
Cangen Cyllid a Busnes	WEFOPMDFinanceBranch@wales.gsi.gov.uk
Cangen Cysylltedd	WEFOConnectivityBranch@Wales.gsi.gov.uk
Cangen Ymchwil ac Arloesi	WEFO-ResearchandInnovationBranch@Wales.gsi.gov.uk
Cangen Ynni	WEFOEnergyBranch@wales.gsi.gov.uk
ESF	
Cangen Sgiliau	wefoskillsbranch@wales.gsi.gov.uk
Cangen Cyflogaeth a Phobl Ifanc	WEFOEmploymentYoungPeople@Wales.gsi.gov.uk
Rhaglen Iwerddon/Cymru	
Uned Cydweithredu Tiriogaethol	IrelandWalesCrossBorderProgramme@wales.gsi.gov.uk
Neu linell gymorth Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru: Ffôn: 0845 010 3355; E-bost: enquiries-wefo@wales.gsi.gov.uk .	
Rhaglen Datblygu Gwledig	RDP2014-2020@Wales.GSI.Gov.UK

Cynnwys

Adran 1: Beth yw'r Fframwaith Blaenoriaethau Economaidd (EPF)?.....	4
Adran 2: Defnyddio'r Fframwaith Blaenoriaethau Economaidd (EPF)	7
Atodiad A: Geirfa a Diffiniadau.....	9

Adran 1: Beth yw'r Fframwaith Blaenoriaethau Economaidd (EPF)?

1. Beth yw'r Fframwaith Blaenoriaethau Economaidd (EPF)?

- Argymhelliad allweddol Adroddiad Guilford, adolygiad annibynnol o'r trefniadau ar gyfer gweithredu Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewrop 2014-2020, yw sefydlu Fframwaith Blaenoriaethau Economaidd (EPF) i helpu i ganolbwyntio Cronfeydd yr UE ar feysydd allweddol o gyfle economaidd a helpu i sicrhau synergedd o'r radd flaenaf â pholisïau a strategaethau Llywodraeth Cymru ac Ewrop 2020.
- Dogfen gynllunio a chanllawiau yw'r EPF. Mae'n un o nifer o adnoddau a dogfennau canllawiau y bydd yr Awdurdodau Rheoli yn eu defnyddio i benderfynu sut i dargedu'r gweithrediadau a nodir yn y Rhaglenni Gweithredol (ERDF ac ESF) ac yn y dogfennau rhaglennu (EAFRD ac EMFF).
- Mae'r EPF yn cynnwys crynodeb o'r buddsoddiadau gwahanol sy'n cael eu gwneud ledled Cymru. Dylai gweithrediadau sydd am dderbyn cymorth cyllid yr UE ddisgrifio sut y byddant yn ategu ac yn ychwanegu gwerth at y buddsoddiadau ehangach hyn.

2. Beth yw diben yr EPF?

- Er mwyn sicrhau newid pellgyrhaeddol yn ein heconomi, dylai gweithrediadau a ariennir gan yr UE allu dangos eu pwysigrwydd mewn portffolio cydgysylltiedig o fuddsoddiadau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector – y darlun cyffredinol yng Nghymru o safbwynt buddsoddiadau.
- Mae Cronfeydd yr UE yn elfen anhepgor o'r darlun buddsoddiadau cyffredinol hwn. Mae'r EPF yn ceisio amlygu rhannau eraill o'r darlun hwnnw (h.y. ble mae buddsoddiadau eraill yn mynd rhagddynt neu'n cael eu cynllunio). Wrth wneud hynny, bydd yr EPF yn eich helpu i ddechrau cydgysylltu'r darnau gwahanol (h.y. yn disgrifio sut mae'ch syniad yn ychwanegu gwerth fel elfen allweddol o'r darlun buddsoddiad hwnnw).
- Ni fydd yr EPF yn disgrifio pa weithrediadau sydd angen eu datblygu; bwriad y Fframwaith yw'ch helpu, fel darpar fuddiolwr, i ddeall y cyd-destun buddsoddi presennol yn well er mwyn sicrhau bod eich gweithrediad yn gweithio fel rhan anhepgor o'r cyd-destun hwnnw.

3. Beth yw'r cysylltiad rhwng yr EPF a Rhaglenni Gweithredol yr ERDF a'r ESF a dogfennau rhaglennu'r EAFRD a'r EMFF?

■ Mae'r Rhaglenni Gweithredol / dogfennau rhaglennu yn pennu'r strategaeth gyffredinol ar gyfer pob rhaglen ac yn sail i gontract Llywodraeth Cymru â'r Comisiwn Ewropeaidd. Maent yn nodi sut mae Cronfeydd yr UE yn cyd-fynd â pholisïau a strategaethau Llywodraeth Cymru ac yn pennu amcanion cyffredinol pob Rhaglen a'r gweithgareddau sydd i'w hariannu.

■ Nid yw'r EPF yn disodli'r dogfennau hyn. Mae'n ategu'r Rhaglenni Gweithredol / dogfennau rhaglennu drwy fapio cyfleoedd economaidd allweddol yng Nghymru fel bod modd defnyddio cronfeydd yr UE lle byddant yn cael yr effaith fwyaf.

4. Beth yw natur yr EPF?

■ Mae'r EPF yn nodi 10 cyfle economaidd allweddol yng Nghymru. Mae'r cyfleoedd hyn yn thematig (yn gysylltiedig â sector busnes penodol) ac yn rhanbarthol (yn gysylltiedig â rhanbarth penodol o Gymru). Mae'r cyfleoedd economaidd hyn yn cyd-fynd â blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru.

■ Mae pob cyfle economaidd yn cynnwys disgrifiad byr o'r dulliau posibl o ddefnyddio gweithrediadau a ariennir gan yr UE i gyd-fynd â'r cyd-destun buddsoddi, ac ychwanegu gwerth ato. Disgrifiad enghreifftiol yw hwn, a'ch cyfrifoldeb chi yw nodi sut y gallai'ch gweithrediad chi gyfrannu ac ychwanegu gwerth at y cyd-destun buddsoddi.

5. Beth yw gweithrediad hanfodol?

■ Byddwn ni'n ariannu portffolio o weithrediadau a fydd, ar y cyd, yn cyflawni'r nodau, yr amcanion a'r dangosyddion allweddol a nodir yn yr Rhaglenni Gweithredol / dogfennau rhaglennu. Y gweithrediadau hanfodol yw ein gweithrediadau allweddol neu graidd. Maent yn weithrediadau strategol, mawr sy'n cyflawni yn erbyn llawer o'r cyfleoedd economaidd yn yr EPF ac a fydd yn sicrhau cyfran fawr o allbynnau a chanlyniadau ein Rhaglenni.

6. A fydd yr EPF yn cael ei ddiweddarau yn ystod cyfnod rhaglen 2014-2020?

■ Bydd. Mae'r EPF yn ddogfen fyw. Caiff ei ddiweddarau gydol cyfnod rhaglen 2014-2020 i adlewyrchu newidiadau i'r amgylcheddau economaidd a strategol, cyfleoedd economaidd sy'n dod i'r fei a'r cynnydd sy'n cael ei wneud wrth roi rhaglenni'r UE ar waith. Er

enghraifft, wrth i weithrediadau'r UE, gan gynnwys gweithrediadau hanfodol, gael eu cymeradwyo, bydd yr EPF yn cael ei ddiweddarau i restru'r gweithrediadau hyn.

- Bydd yr EPF hefyd yn cael ei adolygu gydol cyfnod y rhaglen i sicrhau bod y cyfleoedd economaidd a nodwyd yn parhau i fod yn berthnasol ac yn adlewyrchu economi Cymru yn gywir.

Adran 2: Defnyddio'r Fframwaith Blaenoriaethau Economaidd (EPF)

7. Sut byddaf yn defnyddio'r EPF?

- Bydd yr EPF yn eich helpu i nodi pa flaenoriaethau eraill sy'n cael eu cynllunio neu sydd ar waith sy'n berthnasol i'ch gweithrediad arfaethedig. Dylech ddefnyddio'r EPF i helpu i ddangos bod eich gweithrediad yn rhan integredig o'r hinsawdd buddsoddi ehangach; ei fod yn ychwanegu gwerth gwirioneddol at raglenni eraill sy'n cefnogi twf a swyddi. Dylech chi allu dangos sut y byddwch yn gweithio gyda'r mentrau a'r sefydliadau hyn i gael mwy o effaith gyfunol.
- Ni fydd yn ddigon i nodi cysylltiad â menter neu faes buddsoddi presennol; dylech chi allu disgrifio sut mae'ch gweithrediad arfaethedig yn ategu ac yn ychwanegu gwerth at y buddsoddiadau hyn.
- Lle bo hynny'n briodol, dylech chi ddangos ym mha ffordd mae'ch gweithrediad yn rhannu sbardunau galw allweddol ac yn datblygu capasiti cyfredol a nodir yn yr EPF.

8. A yw gweithrediad yn 'well' os yw'n cyd-fynd â mwy nag un cyfle economaidd?

- Nid o angenrheidrwydd. Er y bydd rhai gweithrediadau yn cyd-fynd â chyfleoedd lluosog, gall eraill, drwy gyd-fynd yn gadarn ag un cyfle economaidd, wneud cyfraniad hanfodol at fanteisio'n llawn ar botensial y cyfle economaidd hwnnw.

9. A yw gweithrediad yn 'well' os yw'n cyd-fynd â chyfle economaidd thematig neu ranbarthol?

- Gall gweithrediadau gyd-fynd â chyfleoedd economaidd thematig neu ranbarthol, neu'r ddau. Y pwynt allweddol yw sicrhau bod eich gweithrediad arfaethedig yn cyd-fynd â chyfle economaidd, neu sawl cyfle economaidd, yn yr EPF.

10. Beth os nad yw fy ngweithrediad yn cyd-fynd ag unrhyw un o'r cyfleoedd economaidd?

- Nid ydym am ddiystyru unrhyw ddarpar fuddiolwyr nad yw eu gweithrediad yn cyd-fynd ag unrhyw un o'r cyfleoedd economaidd; mae croeso o hyd i chi drafod eich syniad â ni. Fodd bynnag, byddem yn disgwyl bod modd dangos bod y rhan fwyaf o weithrediadau yn cyd-fynd i ryw raddau ag o leiaf un o'r cyfleoedd. Os nad yw'ch

gweithrediad yn gwneud hyn, bydd angen i chi gyflwyno dadl gref iawn i dderbyn cyllid a fyddai, fel arall, yn cael ei neilltuo ar gyfer gweithrediad sy'n gallu dangos ei gyfraniad at y portffolio o fuddsoddiadau yn yr EPF. Felly, bydd angen i chi ddangos cysylltiad cadarn â'r amcanion, y targedau a'r meini prawf a nodir yn y Rhaglen Weithredol / dogfennau rhaglennu a'r meini prawf dethol ac asesu.

11. Beth am y Rhaglenni Gweithredol (ERDF / ESF) neu'r dogfennau rhaglennu (EAFRD ac EMFF), y Meini Prawf Dethol ac Asesu a'r canllawiau ar Themâu Trawsbynciol?

■ Bydd angen o hyd i chi ddangos y bydd eich gweithrediad yn cyflawni nodau ac amcanion Cronfa berthnasol yr UE, fel y'u nodir yn y Rhaglen Weithredol / dogfennau rhaglennu perthnasol. Mae hyn yn debyg i raglenni 2007-2013.

■ Bydd disgwyl i chi ddangos hefyd bod eich gweithrediad yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd a'r meini prawf dethol ac asesu, yn ogystal â dangos sut mae'ch gweithrediad yn cyfrannu at y Themâu Trawsbynciol. Bydd dogfennau canllawiau ar wahân ar gael i'ch helpu i fodloni pob un o'r gofynion hyn.

12. A fydd llwybr carlam ar gyfer gweithrediadau sy'n cyflawni o dan feysydd gweithrediadau hanfodol a nodir yn yr EPF?

■ Na fydd; yn unol â rheoliadau'r Comisiwn Ewropeaidd, bydd yr un system ddatblygu ac asesu yn berthnasol i'r holl weithrediadau.

Atodiad A: Geirfa a Diffiniadau

Maes Gweithgarwch Hanfodol

Maes gweithgarwch sydd â photensial sylweddol i gyflawni yn erbyn llawer o'r cyfleoedd economaidd yn yr EPF a sicrhau cyfran sylweddol o'r allbynnau a'r canlyniadau a nodir yn y Rhaglenni Gweithredol / dogfennau rhaglennu.

Gweithrediad Hanfodol

Gweithrediad allweddol neu graidd, sy'n debygol o fod yn weithrediad mawr a strategol, sy'n gwneud cyfraniad sylweddol at y meysydd o weithgarwch hanfodol a amlinellir yn yr EPF ac a fydd yn cyflawni yn erbyn llawer o'r cyfleoedd economaidd yn yr EPF, yn ogystal â sicrhau cyfran sylweddol o'r allbynnau a'r canlyniadau a nodir yn y Rhaglenni Gweithredol / dogfennau rhaglennu.

Cyfle Economaidd

Cyfle ar gyfer twf economaidd mewn rhanbarth penodol o Gymru neu mewn sector busnes penodol.

Capasiti Presennol

Buddsoddiadau sy'n cynyddu capasiti a gallu mewn perthynas â chyfle economaidd penodol, sy'n bodloni neu'n gallu helpu i fodloni elfen o'r gofyniad sy'n deillio o un sbardun galw allweddol neu fwy.

Sganio'r Gorwel

Buddsoddiadau posibl yn y dyfodol sydd â chefnogaeth glir.

Sefyllfa Buddsoddi/Cyd-destun Buddsoddi

Y rhaglenni buddsoddi amrywiol sydd eisoes yn bodoli neu sydd yn yr arfaeth sy'n cael eu rhoi ar waith yng Nghymru gan y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Dyma'r meysydd a nodir fel cyfleoedd gwirioneddol ar gyfer twf pellgyrhaeddol a newid i'r economi yng Nghymru.

Buddsoddiadau yn yr Arfaeth

Buddsoddiadau sydd wedi'u cynllunio ond nad ydynt wedi dechrau eto.

Sbardun Galw Allweddol

Buddsoddiad mawr, sylweddol a fydd yn sbarduno'r galw am nwyddau, gwasanaethau, cadwyni cyflenwi a phobl.

Cyfnod Rhaglen

Cyfnod gweithredu rhaglenni Cronfa 2014-2020 yr UE.

Meini Prawf Dethol ac Asesu

Y meini prawf a ddefnyddir gan yr Awdurdodau Rheoli i asesu gweithrediadau.